

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

ADRODDIAD I'R:	Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n dysgu
DYDDIAD:	30 Mawrth 2023
LLEOLIAD:	Hybrid
TEITL:	Diweddariad mewn perthynas ag Addysg Ddewisol yn y Cartref
DIBEN YR ADRODDIAD:	Diweddariad mewn perthynas ag Addysg Ddewisol yn y Cartref
Y RHESWM PAM FOD Y PWYLLGOR CRAFFU WEDI GOFYN AM YR WYBODAETH:	Adolygiad blynyddol
CEFNDIR:	

Yng Nghymru, rhieni sy'n meddu ar y cyfrifoldeb pennaf dros sicrhau bod eu plant yn cael addysg addas. Er y caiff y cyfrifoldeb hwn ei ddirprwyo i ysgolion fel arfer, bydd rhai rhieni yn dewis ei arfer yn uniongyrchol trwy ddarparu addysg yn y cartref. Mae angen i'r Awdurdod Lleol deimlo'n fodlon bod pob plentyn yn yr ardal yn cael addysg addas (fel y nodir yn Adran 437 Deddf Addysg 1996). Mae Ceredigion yn parchu hawliau rhieni sy'n dymuno addysgu eu plentyn yn y cartref, fodd bynnag, nid yw'r hawl hon yn hawl sylfaenol. Mae'n amodol ar rieni'n darparu addysg 'effeithlon' ac 'addas' yn unol ag oedran, dawn a gallu'r plentyn. Gall rhieni addysgu eu plant yn y cartref ar yr amod eu bod yn bodloni gofynion adran 7 Deddf Addysg 1996.

Ceredigion sydd â'r nifer cymharol uchaf o ddisgyblion sy'n cael eu haddysgu gartref yng Nghymru (fesul pen o'r boblogaeth sy'n ddisgyblion). Hoffem leihau'r nifer hwn i fod yn debycach i awdurdodau lleol eraill sydd â chyd-destun tebyg i'n cyd-destun ni mewn perthynas â phoblogaeth denau a gwasgaredig a demograffeg ieithyddol. Y nod yw ymgysylltu'n well gyda theuluoedd sydd efallai'n dymuno cofrestru eu plant yn yr ysgol a chynnig gwell cefnogaeth i deuluoedd sydd wedi gwneud penderfyniad pendant i addysgu yn y cartref.

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod bod y gymuned Addysg Ddewisol yn y Cartref yng Ngheredigion yn boblogaeth amrywiol gyda theuluoedd yn dewis addysgu yn y cartref am amryw o resymau.

Y SEFYLLFA BRESENNOL:

Hyd at 2 Mawrth 2023, mae 246 o blant yn cael eu haddysgu gartref yng Ngheredigion.

Data ar gyfer y garfan o blant sy'n cael eu haddysgu gartref a gofnodwyd gan 22 awdurdod lleol fel y boblogaeth hysbys gyfredol ar ddyddiad y cyfrifiad, sef 18 Ionawr 2022.

- Cynnydd o tua 10% yn nifer y plant sy'n cael eu haddysgu gartref ledled Cymru (36% y llynedd). Yng Ngheredigion roedd nifer y plant sy'n cael eu haddysgu gartref wedi gostwng -6%
- Mae gan Geredigion un o'r cyfraddau uchaf o blant sy'n cael eu haddysgu gartref yng Nghymru gyda 28.2 fesul 1,000 o ddisgyblion ym mis Ionawr 2022 (30.6 fesul 1,000 yn y flwyddyn 2021).
- Mae nifer y plant a oedd wedi cofrestru mewn ysgol yn flaenorol yn llai o'i gymharu â Chymru. Mae gan Geredigion fwy o blant nad ydynt erioed wedi bod ar gofrestr ysgol o'i gymharu â Chymru. Nid oedd 38% o blant wedi cofrestru mewn ysgol yn flaenorol o'i gymharu â 15% yng Nghymru.
- O'r disgyblion sydd wedi cofrestru yn yr ysgol, roedd 89% wedi cofrestru mewn ysgolion sy'n cael eu rhedeg gan yr Awdurdod Lleol (gostyngiad o 2%) ac roedd 11% (cynnydd o 2%) yn cael eu haddysgu y tu allan i ardal yr Awdurdod Lleol.

Y broses ar ôl i blentyn ddadgofrestru neu pan wyddys bod plentyn yn cael ei addysgu gartref:

Dylid nodi nad oes gofyniad cyfreithiol i blant sy'n cael eu haddysgu gartref gael eu cofrestru gyda'r Awdurdod Lleol. Fodd bynnag, unwaith y mae plentyn yn hysbys i'r Awdurdod Lleol mae dyletswydd i geisio cael gwybodaeth bellach i fod yn fodlon bod addysg effeithlon yn cael ei darparu. Mae'r Awdurdod Lleol yn cadw cofrestr o blant hysbys sy'n derbyn Addysg Ddewisol yn y Cartref yng Ngheredigion.

Unwaith y bydd yr Awdurdod Lleol yn cael gwybod bod plentyn wedi'i dynnu o'r ysgol, bydd yr Awdurdod Lleol yn anfon llythyr i gydnabod y dadgofrestrriad. Mae'r llythyr yn cynnwys ffurflen ymholi y dylai rhieni/gwarcheidwaid ei llenwi a'i dychwelyd o fewn 14 diwrnod; mae'r ffurflen hon yn amlinellu yr hyn y maen nhw'n bwriadu ei wneud o ran addysg a'r rhesymau dros ddadgofrestru.

Dylid nodi nad oes gofyniad statudol ar yr Awdurdod Lleol i fonitro ansawdd ac amrywiaeth yr addysg a ddarperir. Fodd bynnag, mae gan yr Awdurdod Lleol dîm o swyddogion sy'n cynnig ymweliadau blynyddol i bob teulu. Nid yw'n ofynnol i blant sy'n cael eu haddysgu gartref ddilyn unrhyw gwricwlwm penodedig neu fodloni'r meini prawf o ran nifer yr oriau dysgu. Gall dulliau addysgu yn y cartref fod yn amrywiol, o drefniant ffurfiol, strwythuredig sy'n seiliedig ar amserlen ac sy'n digwydd yn amgylchedd y cartref yn bennaf, i addysg ymreolaethol neu addysg a arweinir gan y plentyn, neu ddull diysgol. Gellir teilwra'r dull a ddefnyddir i ddiwallu anghenion, diddordebau ac arddulliau dysgu'r plentyn.

Yn ystod ymweliadau blynyddol i fonitro addysg addas, bydd yr Awdurdod Lleol ar gael i gwrdd â rhieni mewn lleoliad addas i edrych ar waith ac adnoddau'r plentyn/plant. Ar adegau, bydd

swyddog yr Awdurdod Lleol yn gofyn am gyfle i siarad gyda'r plentyn, er y nodir nad oes ganddynt hawl gyfreithiol i fynnu cyfarfod o'r fath. Yn ystod yr ymweliadau hyn, mae swyddogion yr Awdurdod Lleol yn gallu cynnig cyngor ar yr addysg a ddarperir, maent yn cydnabod nad yw arferion a safonau addysg yn yr ysgol o reidrwydd yn berthnasol i addysg yn y cartref.

Os oes gan yr Awdurdod Lleol bryderon nad yw rhieni'n darparu addysg addas i'r plentyn, yna bydd ymweliad adolygu yn cael ei drefnu o fewn 3 mis. Os bydd pryderon yn parhau yn dilyn cyfarfod adolygu, gall yr Awdurdod Lleol ystyried Gorchymyn Mynychu'r Ysgol. Mae'r rhieni yn derbyn copi o'r adroddiadau sy'n cael eu llunio o ganlyniad i unrhyw gyfarfodydd.

Ymweliadau cartref a gwblhawyd yn ystod y 12 mis diwethaf.

- 2019 – ni chofnodwyd ar gyfer y flwyddyn hon.
- 2020 – 65% (45% yng Nghymru)
- 2021 – 48% (47% yng Nghymru)
- 2022 – 63% (34% yng Nghymru)

Rhwng mis Medi 2022 a 2 Mawrth 2023 rydym wedi cynnig 117 o ymweliadau blynyddol.

Nifer y disgyblion sydd wedi dychwelyd i'r ysgol:

- 2019 – 33 o ddisgyblion yng Ngheredigion wedi dychwelyd i'r ysgol
- 2020 – 26 o ddisgyblion yng Ngheredigion wedi dychwelyd i'r ysgol
- 2021 – 27 o ddisgyblion yng Ngheredigion wedi dychwelyd i'r ysgol
- 2022 - 61 o ddisgyblion yng Ngheredigion wedi dychwelyd i'r ysgol

2023 – hyd at 2 Mawrth, mae 29 o ddisgyblion wedi dychwelyd i'r ysgol.

Nifer y disgyblion sydd wedi cael eu haddysgu gartref:

	Erioed wedi bod yn yr ysgol	Ysgolion y Tu Allan i'r Sir	Ysgolion Ceredigion	Cyfanswm
2019	14	6	50	70
2020	38	6	79	123
2021	28	13	60	101
2022	22	6	22	50
2023	30	3	28	61

Mae dau aelod o'r tîm Cynhwysiant, Angharad Russell-Evans a Catrin Petche wedi derbyn tystysgrif aur gwobr rhagoriaeth 'Kit' gan Education Otherwise i gydnabod y gefnogaeth a gynigir i deuluoedd sy'n addysgu gartref yng Ngheredigion.

Diogelu

- Boed yn yr ysgol neu wrth addysgu yn y cartref, dylai lles a diogelwch pob plentyn fod yn flaenoriaeth i bawb. Mae diogelu plant yn gyfrifoldeb ar bawb.

- Os oes gan y Gwasanaeth Cynhwysiant Addysg bryderon y gallai plentyn fod mewn perygl o gael ei gam-drin, ei esgeuluso, neu ddioddef mathau eraill o niwed, mae dyletswydd arnynt i adrodd o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
- Mae unrhyw bryderon yn cael eu rhannu gyda'r Swyddog Diogelu Dynodedig ar gyfer y Gwasanaeth Ysgolion yn ogystal â gwasanaethau perthnasol eraill megis Porth Cynnal.
- Mae cyfathrebu clir rhwng Porth Cynnal, y Gwasanaeth Ysgolion, a'r Swyddog Diogelu Dynodedig ar gyfer y Gwasanaeth Ysgolion e.e. pan ddaw hysbysiad drwy 'Operation Encompass', neu os derbynnir Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaethol (MARF) gan Porth Cynnal, byddant yn cyfathrebu ac yn cytuno ar bwy fydd yn gweithredu a sut y dylid gweithredu.
- Pan fo pryderon yn codi, rydym yn blaenoriaethu ymweliadau â'r teuluoedd hyn, yn ogystal â chynnal ymweliadau ar y cyd gyda Phorth Cynnal, Iechyd, ac unrhyw asiantaeth berthnasol arall pan fo hynny'n briodol.

**LLESIANT
CENEDLAETHAU'R
DYFODOL:**

**A gwblhawyd Asesiad Effaith
Integredig? Os na, nodwch pam
Crynodeb:
Hirdymor:
Integreiddio:
Cydweithio:
Cynnwys:
Atal:**

ARGYMHELLION:

Cael gwybod am niferoedd presennol y plant sy'n cael eu haddysgu gartref yng Ngheredigion.

Cael gwybod sut mae'r Gwasanaeth Ysgolion yn adolygu darpariaeth plant sy'n cael eu haddysgu gartref.

Y RHESWM DROS YR ARGYMHELLION:

Codi ymwybyddiaeth o'r cymorth a ddarperir gan Wasanaeth Ysgolion Ceredigion.

Enw Cyswllt:

Catrin Petche Gillian Evans

Swydd:

Gwasanaeth Cynhwysiant Addysg, Gwasanaethau Dysgu

Dyddiad yr Adroddiad:

9 Mawrth 2023

Acronymau: